

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG GYNHALIWDYD YN Y NEUADD 3 GORFFENAF 2025 AM 7.30YH

1. Yn bresennol: Y Cyng Philip Davies (Cadeirydd), Nicola Jones, Janet Knott, Shan Rees, Elfyn Williams, Meinir James, Viv Davies, Eifion Jones, Jenny Jones, Cynghorydd Sir Tyssul Evans ac Arfon Davies (Clerc).

Yn bresennol ar gyfer Eitem 4 yn unig – Owen Jones, Kalam Harris, Hollie-Louise Allen, Danny James ar gyfer Green Gen.

Ymddiheuriadau: Y Cyng Carys Thomas a Rheinallt Jones

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Viv Davies i'r cyfarfod yn dilyn salwch.

2. Datganiadau Diddordeb

Dim datganiadau.

3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd

Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

4. Green Gen

Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr Green Gen i'r cyfarfod. Rhoddwyd cyflwyniad ar y 2 brosiect ar gyfer cynlluniau arfaethedig Tywi Teifi a Thywi Wysg. Nodwyd byddai Tywi Teifi yn cynnal y rownd derfynol o ymgynghori ar ddechrau 2026, ac yna'r cyflwyniad terfynol i'w gymeradwyo yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Nodwyd bod Tywi Wysg ychydig ar y blaen ar yr amserlen hon.

Ymhlith y materion a godwyd gyda Green Gen roedd:

- Yr angen i ddarparu mwy o wybodaeth gyfunol ar bob un o'r prosiectau a'r cynnig Is-orsaf oherwydd pryderon ynghylch effeithiau cronus a'r diffyg tryloywder llawn a achosir gan yr ymgynghoriadau cyfnodol presennol.
- Y dymuniad i weld tanddaearu ar gyfer ardal Gymunedol Llandyfaelog, bydd gwybodaeth yn cael ei darparu ar y gymhariaeth gwerthuso cost rhwng tanddaearu a cheblau uwchben. Nododd Green Gen fod y gwahaniaeth cost tua 4.5 gwaith yn fwy o gost ar gyfer tanddaearu.
- Codwyd y posibilrwydd o ddwy linell danddaearol yn cael eu gweithredu gyda'i gilydd neu ochr yn ochr â'i gilydd. Nodwyd mai dim ond llinell Tywi Teifi oedd yn cael ei chynnig ar hyn o bryd i'w thanddaearu. Y rheswm a gyflwynwyd dros beidio â gwneud hynny gyda llinell Tywi Wysg oedd y llinellau helaeth a nodwyd fel rhai byddai rhaid eu croesi yn yr ardal.
- Gofynnwyd am wybodaeth ar adroddiad strategaeth y grid er mwyn deall y gyrrwr y tu ôl i'r prosiectau sy'n cydgyfeirio yn Llandyfaelog.
- Gofynnwyd am gymhariaethau disgwyliad oes ar danddaearu yn hytrach na llinellau uwchben. Nodwyd y disgwyliar i'r llinellau tanddaearol fod yn defnyddiol am tua 40 blwyddyn gyda llinellau uwchben i fod yn hirach ac yn haws i'w cynnal a'u cadw.

5. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 5^{ed} Mehefin 2025.

6. Materion yn Codi

- 1. Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
- 2. Pryderon yn ymwneud â pharcio ar linellau melyn dwbl yn Llandyfaelog** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
- 3. FC29/4 Pentrepoeth** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
- 4. Materion Gorfodaeth Cynllunio caeau yn Idole** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y proses gorfodi. Nodwyd.
- 5. Grid Cenedlaethol – Is-orsaf yn Ardal Llandyfaelog** – Byddai'r Cyngor yn cyfarfod â chynrychiolwyr y Grid Cenedlaethol ar 10^{fed} Gorffennaf 2025 am 7.30yh. Rhoddodd y Cynghorydd Nicola Jones gyflwyniad ar faterion oedd yn codi gyda'r cynigion. Bydd hwn yn cael ei ddosbarthu i aelodau yn barod ar gyfer y cyfarfod.
- 6. Materion diogelwch ffyrdd ym Mancycapel** – Derbyniodd Cyngor gadarnhad byddai ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn fuan ar barth dim goddiweddyd arfaethedig ar gyfer yr ardal. Nodwyd.
- 7. Cadwyn Cadeirydd y Cyngor** – Parhaodd y Clerc i geisio prisiau bathodynau enw newydd ar gyfer y Gadwyn.
- 8. Torri coed yng Nghroesyceiliog - FC 29 4/1 a 4/2** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
- 9. Cynigion cyfyngiadau aros ar gyfer Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin** – Derbyniodd y Cyngor gadarnhad byddai effaith y newidiadau yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yn parhau i gael ei monitro. Nodwyd.
- 10. PL/09369 - 1-3 Gelligaeros, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA32 8DJ** – Nodwyd y Cyng Elfyn Williams ei diddordeb. Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
- 11. Maesglasnant, Cwmffrwd** – Derbyniodd y Cyngor gadarnhad bod y mater yn parhau i symud tuag at ymgyfreitha. Nodwyd.
- 12. Pryderon ynglŷn â chyflymder traffig o Pibwrlwyd yng Nghyffordd Heol Bolahaul** – Roedd yr Heddlu'n gobeithio dechrau gorfodi yn yr ardal yn fuan. Nodwyd bod digwyddiad wedi digwydd yn yr ardal yn ystod yr ychydig ddyddiau diwethaf, gan achosi problemau traffig unwaith eto trwy Groesyceiliog.
- 13. Cynghorau Cymuned cyswllt Tywi/Teifi – Cyfarfod i Gynghorau Cymuned a Thref mewn ardaloedd yr effeithiwyd arnynt gan y prosiect peilonau** – Cafwyd adroddiad gan y Cyng Nicola Jones ar y cyfarfod diweddaraf a gynhaliwyd ar 24^{ain} Mehefin 2025. Bydd y cofnodion yn cael eu dosbarthu pan fyddant yn cael eu derbyn. Nodwyd.
- 14. Parc Solar Heol Ddu** – Nododd y Cadeirydd ei diddordeb. Nododd y Clerc fod y Cynghorwyr Nicola Jones, Janet Knott, Shan Rees ac Elfyn Williams wedi derbyn gollyngiadau gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir i siarad a gwneud sylwadau ond nid i bleidleisio ar y mater yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Llandyfaelog. Gan ystyried hyn, cadarnhaodd y Cynghorwyr Eifion

Jones, Jenny Jones a Meinir James eu diddordeb yn y mater a byddant yn ystyried gwneud ceisiadau tebyg am ollyngiad.

15. Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Cymunedol – Nododd y Cadeirydd lwyddiant yr Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Cymunedol a gynhaliwyd ar 9^{fed} Mehefin 2025. Diolchwyd i Sant Ioan Cymru am drefniadau'r digwyddiad. Nodwyd.

16. Rhoddion a wnaed gan y Cyngor – Derbyniwyd llythyrau diolch gan Glwb Ffermwyr Ifanc Llanismel ac Ambiwylans Awyr Cymru. Nodwyd.

7. Gohebiaeth

- 1. Un Llais Cymru** – Hyfforddiant Mehefin – Medi. Nodwyd.
- 2. Cyngor Sir Caerfyrddin** – Gwybodaeth am y Grant Rhandir a Thyfu Cymunedol. Nodwyd.
- 3. Un Llais Cymru** – E-fwletin. Nodwyd.
- 4. Un Llais Cymru** – Cofnodion ac agenda ar gyfer cyfarfod Pwyllgor Ardal Caerfyrddin a gynhaliwyd ar 1^{af} Gorffennaf 2025. Nodwyd.
- 5. Un Llais Cymru** – Nodiadau Datblygu Arferion. Nodwyd.
- 6. Un Llais Cymru** – Gwybodaeth am y cyfarfod cyffredinol arbennig ar y 3^{ydd} Fedi a'r newidiadau arfaethedig i'r cyfansoddiad. Bydd y Cyng Meinir James yn fynychu'r cyfarfod.
- 7. Cyngor Sir Caerfyrddin** – Adnewyddiad Cyngorau Cymuned a Thref. Nodwyd.
- 8. Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cau ffordd dros dro ar y C2074 ger Nantygoitre Isaf, Llandyfaelog (SA17 5RB) o bwynt 403 metr i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â'r C2057 am bellter o 215 metr i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain ddydd Llun 27^{ain} Hydref 2025 rhwng 09:30 a 15:30. Nodwyd.
- 9. Cylchgrawn Clerks and Councils Direct** – Nodwyd.

8. Cae Idole ac Amwynderau Cymunedol

- Bydd y Clerc yn gofyn am brisiau ar gyfer arolygon coed i'w cynnal yng Nghae Idole a Tir Gof.

9. Atgyweiriwr Cymunedol

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi eu gweithio ym mis Mehefin gyda chyfanswm cost o £644.00 y mis yn cael ei gytuno. Cytunwyd hefyd dorri gwair ar gyfer Mehefin gyda chost o £322.00 y mis.

10. Digwyddiadau Gymunedol 2025

Trafododd y Cyngor Ddigwyddiadau Cymunedol posibl yn 2025 fel a ganlyn:

- Cystadleuaeth Gerddi – Llysiau (5^{ed} Gorffennaf) a Blodau (Awst);
- Cystadleuaeth Ymdrech Gymunedol – Gardd Fach, Mewn Unrhyw Deunydd, dim mwy na Maint A3. I'w arddangos a'i beirniadu yn y Noson Ddathlu.

Cadarnhawyd trefniadau beirniadu gyda dyddiad i'w gytuno ar gyfer ymweliadau. Byddai noson Dathlu'r Gymuned yn cael ei chynnal ar 18^{eg} Awst 2025.

11. Adroddiad Cyllideb 2025-26

Cyflwynodd y Clerc adroddiad cyllideb chwarter 1^{af} ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2025-26. Cynhaliodd y Cyngor y gwaith monitro cyllideb chwarterol a derbyniodd yr adroddiad. Cynhaliodd y Cadeirydd adolygiad o gofnodion ariannol y Cyngor.

12. Cyfrifon

Cytunwyd y taliadau ganlynol:

1.	Disgrifiad	Cyflog	Costau	Cyfanswm Gros	Treth wedi tynnu ffwrdd	YG wedi tynnu ffwrdd	Cyflog Net
Arfon Davies	Cyflog Mehefin a costau	£751.49	£26.00 £14.40 £20.01	£811.90	£300.80	£50.17	£511.10

2. CTEM

£1,057.71

Ebrill – Mehefin

3. Michael Leefe

£322.00

Torri gwair Mai (gweler eitem 8)

4. Michael Leefe

£644.00

Atgyweiriwr Mai (gweler eitem 8)

13. Materion arall a godwyd gan aelodau

1. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi adrodd y materion canlynol i'r Cyngor Sir:
 - a. Ci rhydd ym Maesdolau.
2. Bydd y Clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir ystyried darparu arwydd ffordd dim drwodd ar gyfer y ffordd o Garthowen i Bryngors gan fod traffig i bob golwg yn defnyddio'r lôn i geisio cyrraedd yr A48, nad oedd yn bosibl.
3. Bydd y Clerc yn ceisio gwybodaeth ynghylch a oedd canllawiau statudol ynghylch pryd y gellid disgwyl Budd Cymunedol o brosiectau cynllunio.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 4^{ydd} Medi 2025.